GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Cofnodion wedi'i gadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022 (wedi'i gynnal wyneb yn wyneb yn Ystafell 3.7, CQ2, yn electronig drwy Microsoft Teams ac wedi'i ffrydio'n fyw ar y we)**

| **Yn Bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwyr Anweithredol (Prifysgol) |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Gweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |

| | | |
|---|---|---|
| Rebekah Burns (ar gyfer eitem 3 ar yr Agenda) | (RB) | St John Ambulance |
| Yr Is-gorporal Isobel Fowler (ar gyfer eitem 3 ar yr Agenda) | (IF) | Sgowtiaid Cymru |
| Debra Harding (ar gyfer eitem 3 ar y Agenda) | (DH) | Cadetiaid y Fyddin |
| Joanne Hopkins | (JH) | Cyfarwyddwr y Rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Cyfiawnder Troseddol ac Atal Trais |
| Wayne Jepson (ar gyfer eitem 3 ar yr Agenda) | (WJ) | Pennaeth Ansawdd, Ymgysylltu a Chydweithio |
| Angela Jones | (AJ) | Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Leah Morantz | (LM) | Pennaeth Cyfathrebu |
| Louisa Nolan | (LN) | Pennaeth Gwyddor Data |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Fforwm Partneriaeth y Staff |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd Fforwm Partneriaeth y Staff |
| Verity Winn | (VW) | Arweinydd Archwilio (Perfformiad) Archwilio Cymru |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10am*

| **PHW 213.2/2021** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan roi croeso cynnes i'r bobl a oedd yn gwylio'r trafodion ar-lein. Aeth ati i grynhoi rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am y canlynol: pennu cyfeiriad strategol; creu a chynnal partneriaethau strategol; pennu'r parodrwydd i dderbyn risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau; cynnal trefniadau llywodraethu da a phennu naws a diwylliant y sefydliad.<br><br>O ran cywair a diwylliant, roedd y Bwrdd yn meithrin diwylliant o ddysgu, a diwylliant lle gallai pawb ddod ynghyd a bod ar eu gorau, a hynny fel nhw'u | |

Wedi'i Gadarnhau

hunain, heb fod ofn gwahaniaethu nac anfantais o unrhyw fath, gan gynnwys unrhyw ymddygiad ffobig. Roedd gan y bwrdd bolisi dim goddefgarwch yn hyn o beth, ac anogodd JW unrhyw un sy'n profi gwahaniaethu o'r fath i ddefnyddio'r broses sydd ar gael i roi gwybod am hynny. Gofynnodd hefyd i unrhyw un a oedd wedi gweld/clywed am unrhyw wahaniaethu i roi gwybod.

Roedd y Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn unol â pholisi ymddygiad ffurfiol y Bwrdd, ac roedd y manylion ar y wefan. Roedd hyn yn cyfeirio at ddarllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, gan fanteisio i'r eithaf ar yr amser a oedd ar gael i drafod ar y diwrnod. Roedd y Bwrdd hefyd yn dilyn Gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: gweithio gyda'n gilydd, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth.

Crynhodd JW fusnes y cyfarfod, gan nodi ei fod yn cyd-fynd â Diwrnod Hawliau Gofalwyr; roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod cyfraniad hollbwysig gofalwyr ledled Cymru, ac roedd ganddo Rwydwaith Gofalwyr gweithgar. Roedd aelodau'r rhwydwaith wedi trefnu nifer o weithgareddau drwy'r sefydliad i amlygu cyfraniad gofalwyr ac i ddathlu'r diwrnod.

Dywedodd HB fod **ymddiheuriadau** wedi dod i law gan Mohammed Mehmet, Mark Bellis, Iain Bell, Stephanie Wilkins, Verity Winn a Kate Young.

| **PHW 2/2022.11.24** | **Datgan Buddiannau** |
|---|---|

Ni ddatganodd aelodau'r bwrdd fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

| **PHW 3/2022.11.24** | **Partneriaeth Strategol / Gwobr Teilyngdod Iechyd y Cyhoedd (y Wobr)** |
|---|---|

Rhoddodd JW groeso cynnes i gynrychiolwyr o'r sefydliadau partner a oedd yn rhan o ddylunio'r Wobr: St John Ambulance, Sgowtiaid Cymru a Chadetiaid y Fyddin. Cyflwynodd RBW: Debra Harding, yr Is-gorporal Isobel Fowler a Rebekah Burns.

Defnyddiodd RBW gyflwyniad sleidiau i roi trosolwg o'r Wobr. Roedd y cyflwyniad yn dangos y canlynol:

- Y dull o gydgynhyrchu gyda'r tri phartner allanol, i ddatblygu cwricwlwm a oedd yn rhoi gwybodaeth a sgiliau i blant a phobl ifanc ym maes iechyd y cyhoedd i'w galluogi nhw i wneud penderfyniadau doeth i wella eu hiechyd eu hunain ac iechyd pobl eraill.
- Bod y Wobr yn datblygu ar ddarpariaeth a oedd gan bob sefydliad partner eisoes, gyda chwricwlwm yn rhoi gwybodaeth am iechyd y cyhoedd a oedd yn addas i wahanol oedrannau, gan annog unigolion a chymunedau i ddysgu.
- Bod Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Thegwch wedi dangos bod risg y byddai anghydraddoldebau iechyd yn cynyddu ymhlith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd mewn sefydliadau ieuenctid sydd

Wedi'i Gadarnhau

wedi ennill eu plwyf. Roedd y Wobr yn ceisio lliniaru'r risg hon drwy strategaethau recriwtio penodol a'r defnydd o arian grant.
- Roedd proses o werthuso ar y cyd yn mynd rhagddi, gyda chymorth gan bartner academaidd, a byddai hyn yn sail i'r camau nesaf.

Eglurodd RB fod y model yn hyblyg; gallai fod yn berthnasol i amrywiaeth eang o grwpiau a gellid ei addasu i ateb anghenion dysgu unigol. Roedd ugain o Gadetiaid y Fyddin wedi treialu'r Wobr ac roedd wedi bod yn boblogaidd ac yn ffordd dda o roi gwell dealltwriaeth i bobl ifanc o egwyddorion iechyd y cyhoedd.

Dywedodd RBW y byddai fideo hyrwyddo ar gael cyn hir a bod cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys y posibilrwydd o gyflwyno achrediad ffurfiol. Roedd cystadleuaeth wedi'i chynnal i ddylunio'r Bathodyn Teilyngdod, ac roedd Llysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi dau ddyluniad ar y rhestr fer i'r Bwrdd eu hystyried.

Aeth JW ati i longyfarch RBW, y cynrychiolwyr o'r sefydliadau partner, a phawb a oedd yn rhan o'r cynllun ysbrydoledig hwn a oedd yn berthnasol mewn ffordd mor eang. Gwahoddodd sylwadau a chwestiynau:

- Gofynnodd KE am gynlluniau i ehangu'r Wobr i sefydliadau eraill ledled Cymru, fel yr Urdd yn enwedig. Dywedodd RBW y byddai'r gwerthusiad cychwynnol, sydd i'w ddisgwyl erbyn diwedd mis Mawrth 2023, yn rhoi'r cyfle i ystyried ehangu'r cynllun.
- Croesawodd SG y cynllun fel un cadarnhaol a chalonogol. Gofynnodd a allai'r safbwynt atal iechyd gynnwys heriau byd-eang, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, ac ystyried pwysigrwydd cynyddol yr agenda hon. Nododd IF fod gan bobl ifanc gryn ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd a'r amgylchedd, a chadarnhaodd ei bod hi'n fwriad ystyried hyn.
- Gofynnodd DC am y rhagolygon ar gyfer y nifer a fyddai'n cymryd rhan, ac a oedd cynlluniau i gyfieithu a darparu'r cwricwlwm mewn amrywiaeth o ieithoedd er mwyn cyrraedd cynifer o grwpiau â phosibl. Cytunodd RBW i edrych ar hyn, yn dibynnu ar y gwerthusiad cychwynnol.
- Dywedodd DE y byddai'r cynllun hwn o ddiddordeb i Weinidogion; dywedodd hefyd fod angen rhoi adnoddau digonol ar gyfer y Wobr ac adnoddau i gyfieithu'r deunyddiau i ieithoedd eraill. Awgrymodd JW y gallai hi a TC friffio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg, gyda TC yn ychwanegu y byddai posibilrwydd o ddarparu briff ar y cyd â'r sefydliadau partner.
- Dywedodd TC ei bod yn ffafrio dyluniad ar gyfer y Bathodyn Teilyngdod heb logo GIG Cymru, a gofynnodd MK ynghylch cynnwys mwy o amrywiaeth yn y delweddau. Roedd eu cydweithwyr ar y Bwrdd yn cyd-weld. Cytunodd y Bwrdd i roi'r dasg o gwblhau'r trefniadau ar gyfer y dyluniad terfynol i RBW.

Wedi'i Gadarnhau

**Camau Gweithredu: RBW**

Nododd y Bwrdd y dull o gydgynhyrchu gyda phartneriaid a **chymeradwyodd** Gynllun Gwobr Teilyngdod Iechyd y Cyhoedd. Cytunodd y Bwrdd i gael diweddariad am y cynnydd a'r gwerthusiad ar adeg addas yn 2023/24.

**Camau Gweithredu: RBW**

| **PHW 4/2022.11.24** | **Sesiwn Strategol - Dull Cymdeithasol o Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd** |
|---|---|

Cafodd JH ei chroesawu i'r cyfarfod gan JW. JH yw Cyfarwyddwr Rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Cyfiawnder Troseddol ac Atal Trais. Gwahoddwyd JH i gyflwyno diweddariad am y Fframwaith Ymarfer Trawma.

Amlinellodd JH ddatblygiad y Fframwaith, mewn partneriaeth â Straen Trawmatig Cymru. Roedd y Fframwaith yn rhoi sylw i bob ffurf ar adfyd a digwyddiadau trawmatig yn ystod cwrs oes pobl. Cafodd y Fframwaith ei lansio ar 14 Gorffennaf 2022 gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Lynne Neagle.
Dywedodd JH fod y Fframwaith ar gael i'w weld gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: https://traumaframeworkcymru.com/cy/. Roedd gwaith i ddatblygu'r Fframwaith wedi cynnwys:

- Sefydlu dealltwriaeth sylfaen drwy adolygiad o'r llenyddiaeth i ganfod y dystiolaeth bresennol;
- Adolygu'r derminoleg sy'n ymwneud â thrawma ac sy'n cael ei defnyddio yng Nghymru;
- Creu darn wedi'i animeiddio i ddangos y meysydd gwaith.

Rhannodd JH y gwersi i'w dysgu am bwysigrwydd defnyddio iaith a therminoleg ac am ddiffinio dull sy'n 'ystyriol o drawma' yng Nghymru, a hwnnw'n cydnabod bod gan bawb gyfraniad i'w wneud at hwyluso cyfleoedd a chyfleoedd bywyd yn sensitif i bobl y mae trawma ac adfyd wedi effeithio arnyn nhw.

Roedd cynnwys y Fframwaith wedi'i seilio ar bum Egwyddor Ymarfer a phedair Lefel Ymarfer, a chyflwynodd JH y rhain. Dywedodd ei bod hi'n bwysig cael ymatebion ar lefel sefydliadol a lefel y system, a bod angen dull cynhwysol o weithio ar bob lefel. Roedd cysyniad y Fframwaith yn ddynamig, a byddai'n esblygu wrth i ymarfer a gwybodaeth gynyddu.

Diolchodd JW i JH am ei chyflwyniad grymus, a hwnnw'n amlygu goblygiadau cymdeithasol trawma ac adfyd. Gallai ymddangos bod y rhain yn ymwneud â digwyddiadau ar lefel unigolion a theuluoedd, ond roedd eu gwreiddiau mewn

Wedi'i Gadarnhau

normau diwylliannol a chymdeithasol a oedd yn galw am ymateb cenedlaethol. Gwahoddodd JW sylwadau neu gwestiynau:

- Cafodd JH a phawb a oedd yn rhan o greu'r Fframwaith arloesol hwn eu llongyfarch gan HG; roedd yr agenda'n galw am waith arwain systemau ym maes iechyd y cyhoedd a chrybwyllodd HG bwysigrwydd cyfeirio at hyn yn ystod y broses o adnewyddu'r Strategaeth Hirdymor. Dylid crybwyll rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y cydnabyddiaethau hefyd.

**Camau Gweithredu: HG**

- Cyfeiriodd KE at fater sylfaenol, sef a oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei hun yn sefydliad a oedd yn ystyriol o drawma. Dywedodd JH fod y Fframwaith yn cynnwys y cyfle i gyflwyno dysgu ac asesu sefydliadol. Gofynnodd JW i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl i ystyried hyn fel rhan o'i waith i adnewyddu'r Strategaeth Pobl.

**Camau Gweithredu: NL/MM**

- Croesawodd SG y cyflwyniad a'i ddefnydd wrth ystyried trawma ar lefel fyd-eang. Gofynnodd am y gynulleidfa'r animeiddiad, ac ystyried rhywfaint o'r derminoleg a'r iaith a oedd ynddo. Dywedodd JH fod gwaith profi helaeth wedi'i wneud â phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol cyn penderfynu'n derfynol ar yr iaith a fyddai'n cael ei defnyddio.

- Croesawodd RBW y dulliau o gydgynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth sydd wedi'u gwreiddio yn natblygiad y Fframwaith. Dywedodd fod cyfleoedd i ledaenu a datblygu'r gwaith ymhellach drwy'r Tîm Diogelu Cenedlaethol a'r Llysgenhadon Ifanc.

**Camau Gweithredu: RBW**

- Soniodd MK am y berthynas rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chanlyniadau iechyd. Gofynnodd am y diffiniad o lwyddiant. Cadarnhaodd JH fod hyn yn ymwneud â sicrhau bod cymorth ar gael i bawb a oedd yn chwilio amdano, gan atal unrhyw ddigwyddiadau niweidiol rhag digwydd eto.

I gloi, adleisiodd JW longyfarchiadau'r Bwrdd i JH a phawb a oedd yn rhan o ddarparu Fframwaith arloesol. Byddai'n cael effaith bellgyrhaeddol ar lefel gymdeithasol, ac yn helpu i wneud Cymru yn wlad sy'n ystyriol o drawma.

**Cafodd** y Bwrdd **sicrwydd** o'r cyflwyniad, gan nodi y byddai'r gwaith o adnewyddu'r Strategaeth Hirdymor yn cyfeirio at y Fframwaith a'r modd yr oedd ei ddefnyddio'n helpu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o drawma.

Wedi'i Gadarnhau

| **PHW 5/2022.11.24** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
|---|---|
| **PHW 5.1/2022.11.24** | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |

Gan gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, tynnodd TC sylw at y canlynol:

- Ymchwiliad Cyhoeddus y Deyrnas Unedig i COVID-19:
  - Dynodiad Iechyd Cyhoeddus Cymru fel Cyfranogwr Craidd ar gyfer Modiwl I;
  - Y gwrandawiad rhagarweiniol a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2022;
  - Y bwriad i ddechrau gwrandawiadau cyhoeddus ym mis Mai 2023;
  - Rhyddhau amlinelliad arfaethedig o gwmpas Modiwl 3 ar 8 Tachwedd 2022. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi penderfynu peidio â gwneud cais am statws Cyfranogwr Craidd ar gyfer y modiwl, ac yn hytrach byddai'n ymateb yn ôl y galw;
  - Rhyddhau gwybodaeth am fodiwlau eraill yn yr wythnosau nesaf;
  - Y gwaith sylweddol sy'n mynd rhagddo i gydymffurfio â'r gofynion o ran gwybodaeth, yn enwedig o dan Fodiwl 1.

- Newidiadau i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol, gyda MB yn gadael cyn hir i gymryd cadair ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl a HB yn ymuno â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ym mis Ionawr 2023.

  Rhoddodd TC deyrnged i ddegawd MC o wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Yn y cyfnod hwnnw roedd wedi meithrin a datblygu enw da yn rhyngwladol, wedi sicrhau statws canolog i Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth roi cyngor polisi i'r Llywodraeth ac i gymdeithas yn ehangach ynghylch amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, wedi sicrhau statws Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, ac wedi llwyddo wedyn i adnewyddu'r statws hwnnw'n gyflymach na neb.

  Diolchodd TC i HB am ei gwaith rhagorol yn sefydlu Uned Fusnes y Bwrdd ac yn helpu i gynnal trefniadau llywodraethu da yn ystod pandemig byd-eang. Rhoddodd TC deyrnged i HB hefyd yn sgil ei rôl yn paratoi at yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Dymunodd yn dda i HB yn ei swydd newydd.

- Roedd datblygiadau sylweddol wedi'u gwneud o ran y Rhaglenni Sgrinio, a diolchodd TC i'r timau Sgrinio a TG.

- Nododd y Bwrdd y dystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ynghylch materion deintyddol. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth sylweddol ynghylch ailadeiladu deintyddiaeth yng Nghymru, a chadarnhaodd JW y byddai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn gwneud gwaith dilynol ar unrhyw ofynion penodol o ran sicrwydd.

**Camau Gweithredu: KE/AJ**

Wedi'i Gadarnhau

- Yr Argyfwng Costau Byw: cyhoeddi *Yr Argyfwng Costau Byw yng Nghymru: Drwy Lens Iechyd Cyhoeddus* a gwaith gyda Chabinet a swyddogion Llywodraeth Cymru.

- Digwyddiadau Cynhadledd y Staff yn Llandudno a Chaerdydd. Diolchodd TC i'r Tîm Cyfathrebu a Thîm Dylunio'r Gynhadledd am eu gwaith caled yn trefnu'r digwyddiadau gyda'r fath lwyddiant. Roedd ymateb y staff ym mhob un yn dangos faint roedd pobl yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddod ynghyd drachefn.

- Ei phresenoldeb yn CoP27 ddechrau mis Tachwedd; roedd hyn wedi cynnwys cymryd rhan mewn nifer o sesiynau. Byddai gan y Bwrdd gyfle yn Sesiwn Ddatblygu'r Bwrdd fis Rhagfyr 2022 i drafod agenda'r newid yn yr hinsawdd yn fanylach.

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chafodd sicrwydd** o'r cynnwys ac o'r trafodaethau dilynol.

**EGWYL**

| **PHW 5.2/2022.11.24** | **Adroddiad Integredig ar Berfformiad (Mis 7)** |
|---|---|

Cyflwynodd HG yr eitem drwy esbonio bod y Bwrdd wedi cynnal 'archwiliad dwfn' hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, er mwyn gweld sut roedd yn cyflawni o dan Gynllun Gweithredol 2022/23. I'w helpu, roedd y Bwrdd wedi gallu defnyddio'r deunydd canlynol:

- Y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad;
- Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd y Cyhoedd;
- Atodiad A: Diweddariad am y cynnydd a wnaed o dan amodau atebolrwydd cymeradwyaeth Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/25;
- Atodiad B: Adborth gan Lywodraeth Cymru am y cynnydd o dan ofynion yr Economi Sylfaenol a Datgarboneiddio;
- Amserlen yn dangos yr 18 cam gweithredu a oedd wedi'u dynodi fel rhai coch/ambr ar y pwynt hwn yn y flwyddyn.

Dywedodd HG mai ei fwriad oedd defnyddio'r pedair thema ar gyfer y flwyddyn i strwythuro'r 'archwiliad dwfn'. Yna gwahoddodd arweinwyr y timau gweithredol i roi sylwadau am eu themâu perthnasol.

<u>Thema 1: Cynnal Gweithlu Iach a Chynaliadwy</u>

Tynnodd NL sylw at y canlynol:

- Y sefyllfa sefydlog o ran salwch ac absenoldeb;
- Gwelliant o 12% yn ystod y flwyddyn o ran cydymffurfio â gwerthusiadau; roedd gwaith o hyd i'w wneud i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru, sef 85%;

Wedi'i Gadarnhau

- Parhau i gydymffurfio'n gadarnhaol o dan ofynion hyfforddiant statudol a gorfodol;
- Cyflwyno Dangosfwrdd Amrywiaeth newydd a'r potensial i'w ddefnyddio wrth gynllunio'r gweithlu ac mewn strategaethau recriwtio;
- Y gwaith gyda Phrifysgol Arden ar ddadansoddi dechreuwyr newydd a'r rheini sy'n gadael, ac ar dueddiadau yn y farchnad lafur; byddai NL yn cyflwyno rhagor o fanylion ynghylch hyn yng nghyfarfod y Bwrdd fis Ionawr 2023.

Camau Gweithredu: NL

- Gan aros yn y maes recriwtio, cyfeiriodd NL at yr heriau sy'n parhau, gan gynnwys o ran swyddi arbenigol. Roedd hyn yn gysylltiedig ag un o'r amodau atebolrwydd a geir yn Atodiad A a chyfeiriodd NL at rôl oruchwylio barhaus y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn hyn o beth;
- Canran y staff sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg, fel y nodir yn y Dangosfwrdd Amrywiaeth;
- Canran bresennol y staff sydd wedi'u brechu rhag COVID-19 a'r ffliw.

Diolchodd JW i NL am ei ddiweddariad a gwahoddodd gwestiynau.

Yn absenoldeb MM, croesawodd NE y dangosyddion cadarnhaol ar y gweithlu, gan ofyn am ragor o fanylion am ymgysylltu â staff a rheoli capasiti, ac ystyried yr heriau recriwtio a amlygwyd. Ynghylch y cyntaf o'r rhain, crynhodd NL y gwaith a oedd yn mynd rhagddo ar ddiwylliant y sefydliad; roedd hyn yn cynnwys trafodaethau â'r staff a'u rheolwyr am opsiynau gweithio hyblyg. O ran recriwtio, amlinellodd NL amrywiaeth o gamau gweithredu a oedd ar y gweill, gan gydnabod pwynt NE am yr heriau recriwtio sy'n gysylltiedig â swyddi arbenigol (fel ym maes Microbioleg).

Gofynnodd JW am ragor o fanylion am y cynlluniau i gynyddu cyfraddau brechu'r staff rhag COVID-19 a ffliw. Cadarnhaodd NL fod y sesiynau brechu'n mynd yn dda; roedd ymgyrch gyfathrebu weithgar ar y gweill i gynyddu'r cyfraddau. Ychwanegodd RBW fanylion am yr heriau'n gysylltiedig â chasglu data, gyda 'bwlch amser' rhwng rhoi'r brechiadau a chofnodi'r data a'r ffaith bod y trefniadau cofnodi data yn wahanol mewn gwahanol sefydliadau iechyd. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i geisio datrys y materion hyn.

<u>Thema 2: Darparu Gwerth ac Effaith</u>

O ran materion ariannol, rhoddodd HG adroddiadau am y canlynolon:

- Yr hyder sy'n parhau yn y gallu i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn; roedd hyn yn arwyddocaol, ac ystyried y sefyllfa drwy Gymru gyfan;

Wedi'i Gadarnhau

- Dychwelyd £0.05m o gyllid anghylchol dros ben i Lywodraeth Cymru; roedd manylion hyn ar dudalen 3 yr Adroddiad ar Sefyllfa Ariannol 2022/23;
- Goblygiadau'r rhagolwg o ran ynni;
- Sefyllfa mis 07 o ran cymorth ariannol anghylchol Llywodraeth Cymru tuag at COVID-19;
- Y sefyllfa o ran gwariant cyfalaf; crybwyllodd HG y newid i'r dyraniad cyfalaf a fyddai'n deillio o sefydlu Gweithrediaeth y GIG o 1 Ebrill 2023, a throsglwyddo rhaglenni digidol ar 1 Ionawr 2023 i Gofal Iechyd Digidol Cymru;
- Y perfformiad o dan darged statudol Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus.

Fe wnaeth HG gloi drwy ddweud y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn parhau i fonitro'r sefyllfa ariannol, gan gynnwyswaith monitro ariannol ar y rhagdybiaethau ynghylch polisïau dyfodol.

Gofynnodd NE a fyddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i fod â chyfrifoldebau ar ôl trosglwyddo'r rhaglenni digidol i Gofal Iechyd Digidol Cymru ar 1 Ionawr 2023. Dywedodd HG y byddai'r holl gyfrifoldebau ariannol yn cael eu trosglwyddo.

Gofynnodd JW i HG am y paratoadau ar gyfer diwedd y flwyddyn o ran y gofyniad ar gyfer darpariaethau sydd wedi cronni; rhoddodd HG grynodeb o'r hyn a ddysgwyd o ddiwedd blwyddyn 2021/22 a chadarnhau iddo gael sicrwydd drwy waith cynllunio diwedd blwyddyn 2022/23.

<u>Thema 3: Ansawdd Sefydliadol a'r Gallu i Gael Gwasanaethau o Ansawdd Da</u>

Tynnodd MK sylw at y canlynol:

- Y duedd bresennol sy'n dangos gostyngiad yng nghyfraddau COVID-19, gyda gostyngiadau yn nifer yr achosion ac yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty. Ni fu adroddiadau o unrhyw ddigwyddiadau na brigiadau o achosion sylweddol o COVID-19 yn ystod y mis ac roedd arolwg heintiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr wythnos flaenorol yn amcangyfrif bod gan 1:44 o bobl yng Nghymru'r feirws. BA.5 oedd yr amrywiolyn cryfaf o hyd, ond roedden nhw'n cadw golwg ofalus ar is-linachau. Roedd gweithgarwch profi yn dal i ostwng, gan gydymffurfio'n gyffredinol â'r amseroedd ar gyfer cwblhau profion;
- O ran materion diogelu iechyd eraill, roedd nifer yr achosion o frech y mwncïod yn gymharol sefydlog, ond gyda rhywfaint o awgrym bod y niferoedd yn cynyddu; roedd achosion o E.coli yn gostwng ond roedd rhai clystyrau o hyd i'w cael; roedd ymchwiliadau i glystyrau TB yn parhau a gallai arwain at yr angen i brofi a sgrinio'n ehangach;
- Y camau lliniaru sydd wedi'u cyflwyno i ymateb i'r streic sydd wedi'i chynllunio gan staff y Post Brenhinol. Yn eu plith mae penodi

Wedi'i Gadarnhau

gwasanaeth cludo ar gyfer profion sensitif a darparu pecynnau sgrinio am ganser y coluddyn;
- Y gwaith sy'n parhau i adfer rhaglenni sgrinio; roedd hyn yn gysylltiedig ag un o'r amodau atebolrwydd yn Atodiad A. Cyfeiriodd MK at y sefyllfa o dan bob un o'r rhaglenni, gan dynnu sylw'r Bwrdd at yr heriau sy'n dal i wynebu Bron Brawf Cymru a Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Dywedodd fod angen gwerthuso system newydd Gwybodaeth Sgrinio Serfigol Cymru a goblygiadau'r rhaglen i wella Sgrinio'r Coluddion Cymru. Soniodd MK am y gwaith a oedd yn cael ei wneud gyda byrddau iechyd i roi mynediad i golonosgopi.
- Soniodd MK yn benodol am y sefyllfa gyda rhaglenni brechu plant a'r camau gweithredu a oedd yn cael eu cymryd, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Imiwneiddio Llywodraeth Cymru.

Ychwanegodd RBW fanylion am y canlynol:

- Mymryn o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau ym mis Hydref; mae'r gwaith monitro agos rhwng y tîm Gweithio i Wella, Diogelu Iechyd a'r Is-adran Sgrinio wedi helpu i reoli a chwblhau digwyddiadau presennol.
- Dwy gŵyn ffurfiol a oedd wedi dod i law a nifer uwch o ganmoliaethau yn ystod y cyfnod, heb unrhyw hawliadau newydd na digwyddiadau i adrodd amdanyn nhw'n genedlaethol.

Diolchodd JW i'r holl gyfranwyr a gwahoddodd gwestiynau:
Croesawodd DE y gwaith i adfer y rhaglenni sgrinio. Gofynnodd am lefel yr adnoddau a oedd ar gael i reoli'r cynnydd yn y niferoedd o dan y rhaglen i wella Sgrinio'r Coluddion. Croesawodd y cynlluniau rhagweithiol a oedd wedi'u cyflwyno i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl yn ystod unrhyw streic bost. Yn olaf, gofynnodd DE am Ganolfan Aberpennar ac unrhyw gyfleoedd i ehangu'r model amlbwrpas hwn i gyrraedd pobl mewn ardaloedd difreintiedig eraill.

Cadarnhaodd MK bod gwaith yn cael ei wneud i hybu tegwch wrth sgrinio'r coluddion, ac ar effeithiau hyn ar wasanaethau dilynol. O ran Aberpennar, dywedodd MK fod yr adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gadarnhaol. Dywedodd ei bod hi'n bosibl datblygu'r cysyniad mewn partneriaeth â byrddau iechyd.

Mynegodd KE ddiddordeb yn y gwaith i adfer gwasanaeth sgrinio Bron Brawf Cymru ac ystyried y llwybr adfer hir. Gofynnodd am effaith colli lleoliad sgrinio yn y gorllewin. Dywedodd MK y byddai cyfarpar newydd i sgrinio'r fron, sydd wrthi'n cael ei gyflwyno, yn cyflymu'r llwybr. Gofynnodd JW i KE a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella barhau i oruchwylio'r gwaith o adfer y rhaglen sgrinio.

**Camau Gweithredu: KE/MK**

Wedi'i Gadarnhau

Gwahoddodd HG unrhyw sylwadau ychwanegol am y targedau coch/ambr a oedd yn y rhestr a gyflwynwyd yn y cyfarfod.

- Dywedodd AJ fod dau o'r targedau iechyd a llesiant yn ymwneud â'r agenda teithio llesol, ac yn benodol, nifer y plant a allai deithio i'r ysgol mewn ffordd lesol. Byddai'r camau'n cael eu cymryd erbyn 31 Mawrth 2023.
- Dywedodd JB fod y targed coch ar gyfer Gwelliant Cymru'n ymwneud â'r gallu i gysylltu â rhanddeiliaid er mwyn trafod gofynion modelau efelychu; byddai'r gwaith yn dod i ben cyn 31 Mawrth 2023.

Daeth HG â'r eitem i ben drwy ddiolch i NK, MK a RBW am eu cyfraniadau; roedd yn ffyddiog bod yr 'archwiliad dwfn' wedi galluogi'r Bwrdd i gael sicrwydd, hanner ffordd drwy'r flwyddyn, o dan y broses o gyflawni Cynllun Gweithredol 2022/23, gan nodi'r heriau a'r camau lliniaru.

Ychwanegodd JW ei diolch i HG a'i gydweithwyr, gan gydnabod y cynnydd sylweddol a oedd wedi'i wneud ym Mis 07 o dan gynllun uchelgeisiol, ac yn wyneb amgylchedd gweithio sy'n newid o hyd ac yn golygu bod o dan lawer o bwysau.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariadau, astudiodd y deunyddiau ychwanegol a **chafodd sicrwydd** o'r 'plymio dwfn' ar gynnydd o ran cyflawni yn erbyn Cynllun Gweithredol 2022/23 a throsolwg parhaus y Pwyllgor Adfer Rhaglen Sgrinio i Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Cyfarfod y Bwrdd ei hun hefyd y caiff yr amodau atebolrwydd a nodir yn Atodiad A eu rheoli'n effeithiol.

| **PHW 5.3/2022.11.24** | **Rheoli Risgiau** |
|---|---|

Gan gyflwyno'r eitem hon, soniodd RBW am y gwaith sylweddol a oedd yn gysylltiedig â diweddaru'r risgiau corfforaethol a strategol. Roedd hyn wedi cynnwys datblygu disgrifyddion ar gyfer y parodrwydd i dderbyn risg, gyda rhagor o waith yn mynd rhagddo drwy'r sefydliad i sicrhau dealltwriaeth lawn o ddisgrifyddion strategol ar bob lefel drwy'r sefydliad.

Gwahoddodd RBW wedyn bob perchennog risg strategol i roi diweddariad i'r Bwrdd, gan nodi bod angen ailgylchredeg y papur a ddarparwyd ar gyfer y cyfarfod, gyda diweddariad am y sefyllfa bresennol.

**Camau Gweithredu: RBW**

<u>Risg 1: TC</u>

Roedd gwaith sylweddol yn mynd rhagddo; roedd natur y gwaith wedi newid dros y misoedd diwethaf, gan adlewyrchu'r argyfwng costau byw a'r rhyfel yn Wcráin. Byddai'r broses o ddiweddaru'r Strategaeth Hirdymor yn mynd i'r afael â'r holl fygythiadau presennol.

Wedi'i Gadarnhau

Risg 2: MK

Roedd camau rheoli a chamau gweithredu wedi'u cyflwyno i liniaru'r risg o beidio â chyflawni. Er bod y sgôr risg presennol yn dda, gallai bygythiadau presennol i iechyd pobl gael effaith niweidiol ac roedden nhw'n cael eu monitro'n ofalus, gyda chamau rheoli addas. Tynnodd MK sylw at Gam Gweithredu 2.5 yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau clinigol yn gynaliadwy. Roedd hyn yn ymwneud â recriwtio staff arbenigol a rhoddodd MK sicrwydd i'r Bwrdd bod opsiynau ar gael i reoli'r sefyllfa.

Risg 3: NL

Wrth roi sylw i risgiau'n gysylltiedig â newid sefydliadol, cadarnhaodd NL bod camau rheoli wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â newid ar y cyd, gan gydweithio â swyddogion Undebau Llafur drwy'r sefydliad. Roedd sefydlu Gweithrediaeth y GIG yn arwain at heriau newydd. Rhoddodd JW ganmoliaeth i NL am reoli'r broses o drosglwyddo Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol a'r gwaith i gynllunio at ofynion Gweithrediaeth y GIG. Cytunodd NL fod y camau rheoli sydd wedi'u cyflwyno yn dal yn addas.

**Camau Gweithredu: NL**

Risg Strategol 4: NL

Roedd prinder sgiliau, yn enwedig mewn rhai swyddi allweddol, yn risg o hyd. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y gogledd ac yn gysylltiedig â Risg Strategol 2. Cadarnhaodd fod y gwaith i gynllunio'r gweithlu yn cynnwys canolbwyntio ar gynllunio olyniaeth, gyda mwy o waith yn cael ei wneud drwy'r holl sefydliad i adolygu swyddi ac ystyried atebion creadigol amgen i heriau'r gweithlu, gyda chynlluniau i 'dyfu ein gweithlu ein hunain' yn rhan o hynny. Nid yw'r materion hyn yn rhai sy'n unigryw i Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel y gwelir yn nata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Risg Strategol 5: IB

Cadarnhaodd LN fod camau rheoli wedi'u cyflwyno; nid oedd unrhyw bryderon o bwys i'w nodi. Gofynnodd KE am gylchredeg cyflwyniad IB yng nghynhadledd ddiweddar y staff.

**Camau Gweithredu: HB**

Dywedodd JW y bydd Risg Strategol 6 yn cael ei hystyried yn sesiwn breifat y Bwrdd. Diolchodd i'r perchnogion risgiau am y diweddariadau.

**Cafodd** y Bwrdd **sicrwydd** o'r drafodaeth, gan nodi y bydd y papur wedi'i ddiweddaru yn cael ei gylchredeg eto.

Wedi'i Gadarnhau

| **PHW 5.4/2022.11.24** | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau** |
|---|---|

Gwahoddodd JW bob Cadeirydd Pwyllgor i roi diweddariad ac i ddynodi unrhyw faterion penodol o bwys:

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Tynnodd DE sylw at yr Adroddiad Seiberddiogelwch manwl a'r cyfle a roddai hyn i adolygu sut orau i roi sicrwydd ar lefel y Bwrdd. Dywedodd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ystyried hyn ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Tynnodd SG sylw at gyflwyniad y Brifysgol Agored a'r drafodaeth ynghylch edrych ar bartneriaeth strategol; roedd y trafodaethau'n dal i fynd rhagddyn nhw. Dywedodd hefyd fod cynnydd wedi'i wneud wrth ddatblygu'r strategaeth Ymchwil a Gwerthuso a Chynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23.

Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Ar ran MM, tynnodd NL sylw at y diweddariadau yn yr adroddiad a chadarnhau bod y camau gweithredu'n mynd rhagddyn nhw'n dda. Diolchodd JW i NL am y gwaith rhagorol a wnaed i ddatblygu'r Dangosfwrdd Amrywiaeth.

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Rhoddodd KE grynodeb o drafodaeth yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella am y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd. Byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd fis Ionawr 2023 i roi rhagor fanylion am y ddwy Ddyletswydd. Soniodd JB fod yr ymgynghoriad am y Ddyletswydd Ansawdd wedi dechrau ar 25 Hydref 2022.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariadau a roddwyd a **chafodd sicrwydd** o gynnwys yr adroddiadau a'r drafodaeth.

| **PHW 6/2022.11.24** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|
| **PHW 6.1/2022.11.24** | **Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd (29 Medi 2022)** |

**Cymeradwyodd** y Bwrdd gofnodion 29 Medi 2022 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**Nododd** y Bwrdd y Cofnod o Gamau Gweithredu a'r diweddariadau a oedd wedi'u cynnwys ar gyfer y cyfarfod.

| **PHW 6.2/2022.11.24** | **Trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd** |
|---|---|

Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd HB fod y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynnal adolygiad blynyddol o Gylch Gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd. Cyflwynodd Gylchoedd Gorchwyl diwygiedig ar gyfer:

- Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl

Wedi'i Gadarnhau

- Y Fforwm Partneriaeth Lleol

**Ystyriodd** a **chymeradwyodd** y Bwrdd y Cylchoedd Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl a'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

| **PHW 6.3/2022.11.24** | **Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd** |
|---|---|

Atgoffodd JW y Bwrdd o'r darpariaethau ar gyfer camau gweithredu y bydd y Cadeirydd yn eu cymryd, o dan Adran 8 o'r Rheolau Sefydlog. Wrth i'r Cadeirydd gymryd camau gweithredu, cadarnhaodd JW ei bod hi wastad yn gofyn am gytundeb yr Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, ynghyd â chytundeb y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr.

**Cadarnhaodd** y Bwrdd y camau gweithredu a gymerwyd gan y Cadeirydd i gymeradwyo'r broses gaffael ar gyfer Trefniadau Contractio Dros Dro i ddarparu gwasanaeth Molecwlaidd Enterig i adran Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru. **Cafodd** y Bwrdd **sicrwydd** hefyd fod y Cadeirydd wedi gweithredu yn unol ag Adran 8 y Rheolau Sefydlog.

| **PHW 7/2022.11.24** | **Eitemau i'w Nodi** |
|---|---|
| **PHW 7.1/2022.11.24** | **Adroddiad y Cadeirydd (20 Medi 2022)** |

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd am faterion a ystyriwyd yng nghyfarfod preifat y Bwrdd ar 29 Medi 2022, gan gynnwys gwybodaeth newydd am sut byddai'r Bwrdd yn cyfathrebu rhwng cyfarfodydd ffurfiol.

| **PHW 7.2/2022.11.24** | **Blaengynllun y Bwrdd** |
|---|---|

Gwahoddodd JW aelodau'r Bwrdd i ystyried y Blaengynllun a rhoi sylwadau ac unrhyw adborth am y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023.

| **PHW 2022.11.24** | **Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd** |
|---|---|

Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 26 Ionawr 2023.

Cyn cau'r cyfarfod, mynegodd JW ddiolch y Bwrdd i MB am ei ddeng mlynedd o wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, ac am ei gyfraniad mawr at waith Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Roedd ei arbenigedd yn ei bwnc wedi ennyn parch rhyngwladol, ac roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi elwa'n sylweddol o'i arbenigedd a'i enw da yn rhyngwladol. Ymunodd holl aelodau'r Bwrdd â JW wrth ddymuno'n dda i MB, ac felly hefyd wrth ddymuno'r gorau i HB yn ei swydd newydd.

Yn ystod bron i bedair blynedd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, roedd HB wedi profi pandemig byd-eang digynsail a'r gwaith o baratoi at Ymchwiliad Cyhoeddus heb ei debyg. Roedd hi wedi ymateb i'r her o gynnal trefniadau llywodraethu da drwy gydol y cyfnod gweithio hynod o heriol hwn, a dymunodd JW yn dda i HB yn ei swydd Newydd.

| **PHW 2022.11.24** | **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |
|---|---|

Wedi'i Gadarnhau

| |
|---|
| Daeth y cyfarfod i ben am 13.05 |

Wedi'i Gadarnhau